Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 66/2013

www.cymru.gov.uk

# Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Cam 2

# Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau:

Cam 2

**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi**

**Llywodraeth Cymru**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3411

E-bost: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013

ISBN 978 1 4734 0369 7

© Hawlfraint y Goron 2013

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau a ffigurau 4

**Canfyddiadau allweddol 7**

**1. Cyflwyniad 11**

1.1 Cefndir 11

1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn 11

1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol 12

**2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau 13**

2.1 Dealltwriaeth o'r system rhoi organau bresennol 13

2.2 Ymwybyddiaeth, heb awgrymu, o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau 13

2.3 Ffynhonnell o ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau 15

2.4 Dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau 16

2.5 Ymwybyddiaeth o fanylion cynnig Llywodraeth Cymru i newid y system rhoi organau 17

**3. Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau 20**

3.1 Lefelau'r gefnogaeth ar gyfer system optio allan 20

3.2 Rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan 22

**4. Datganiadau am y system feddal o optio allan o roi organau 24**

4.1 'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' 25

4.2 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' 26

4.3 'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny' 27

4.4 ‘Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth’ 28

**5. Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau** **29**

5.1 Ymddygiad ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG ar hyn o bryd 31

**6. Rôl y teulu mewn rhoi organau** **32**

6.1 Datganiadau am rôl y teulu 33

6.2 Enwebu cynrychiolydd 34

**7. Ymgyrch Calon i Galon** 36

7.1 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymgyrch Calon i Galon 36

7.2 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hysbysebion Calon i Galon 36

7.3 Datganiadau am hysbysebion Calon i Galon 37

Atodiad A: Methodoleg 39

Atodiad B: Yr Holiadur (Saesneg yn unig) 43

Atodiad C: Newidiadau i eiriad cwestiynau a'r opsiynau o ran atebion rhwng cam un a cham dau 50

Atodiad Ch: Hysbysebion ymgyrch Calon i Galon 52

# Rhestr o dablau a ffigurau

## Tablau


| | | |
|---|---|---|
| Tabl 2.1 | Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl mae'r system bresennol o roi organau yn gweithio - hynny yw, sut ydych chi'n meddwl mae organau'n cael eu rhoi? | 13 |
| Tabl 2.2 | Ydych chi'n gwybod am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau? | 14 |
| Tabl 2.3 | Sut oeddech chi'n gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau bresennol? | 16 |
| Tabl 2.4 | Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl y gallai'r system newid? | 17 |
| Tabl 2.5 | Cyn heddiw, oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn? | 18 |
| Tabl 3.1 | Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau? | 20 |
| Tabl 3.2 | Allwch chi ddweud wrtha i pam eich bod O BLAID newid i system optio allan? | 22 |
| Tabl 3.3 | Allwch chi ddweud wrtha i pam eich bod YN ERBYN newid i system optio allan? | 23 |
| Tabl 5.1 | Os cyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei wneud? | 29 |
| Tabl 6.1 | Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch roi organau ar ôl i chi farw ag aelod o'r teulu? | 32 |
| Tabl 6.2 | Petaech chi'n marw, ydych chi'n meddwl y byddai aelod o'ch teulu'n gwybod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau? | 32 |
| Tabl 6.3 | Fyddech chi'n ystyried enwebu cynrychiolydd i wneud penderfyniad ar eich rhan i fod yn rhoddwr organau ai peidio? | 35 |
| Tabl 7.1 | Ydych chi wedi gweld neu wedi clywed am ymgyrch o'r enw Calon i Galon? | 36 |
| Tabl 7.2 | Ydych chi wedi gweld unrhyw rai o hysbysebion poster ymgyrch Calon i Galon o'r blaen? | 36 |
| Tabl 7.3 | Beth yw'r prif negeseuon y mae'r hysbysebion yn ceisio eu cyfleu, yn eich barn chi? | 37 |

| | | |
|---|---|---|
| Tabl A.1 | Diffiniad o'r rhanbarthau | 40 |
| Tabl A.2 | Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol | 41 |
| Tabl A.3 | Niferoedd is-sampl yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a graddfa gymdeithasol | 42 |

**Ffigurau**

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 2.1 | Ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth | 14 |
| Ffigur 2.2 | Ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl oedran | 15 |
| Ffigur 2.3 | Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn ôl rhanbarth | 18 |
| Ffigur 2.4 | Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn ôl oedran | 19 |
| Ffigur 3.1 | O blaid neu yn erbyn newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth | 21 |
| Ffigur 3.2 | O blaid neu yn erbyn newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl oedran | 21 |
| Ffigur 4.1 | Datganiadau am y system feddal o optio allan o roi organau | 24 |
| Ffigur 4.2 | 'Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' yn ôl rhanbarth | 25 |
| Ffigur 4.3 | 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' yn ôl rhanbarth | 26 |
| Ffigur 4.4 | 'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny' yn ôl rhanbarth | 27 |
| Ffigur 4.5 | 'Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth' yn ôl rhanbarth | 28 |
| Ffigur 5.1 | Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl rhanbarth | 30 |
| Ffigur 5.2 | Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl oedran | 31 |
| Ffigur 6.1 | Datganiadau gwir am y system feddal o optio allan o roi organau | 33 |
| Ffigur 6.2 | Datganiadau anwir am y system feddal o optio allan o roi organau | 34 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 7.1 | Datganiadau am hysbysebion ymgyrch Calon i Galon | 38 |

## Canfyddiadau allweddol

- Gofynnwyd cwestiynau am roi organau i 1,015 o ymatebwyr a gafodd gyfweliad fel rhan o gam mis Mehefin 2013 o Arolwg Omnibws Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd.

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sy'n ein galluogi i fonitro agweddau'r cyhoedd, eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r system rhoi organau yng Nghymru. Lle y bo'n bosibl, caiff canfyddiadau eu cymharu â'r arolwg llinell sylfaen a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2012.

### Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau. Yn 2013, nododd 57 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o newid arfaethedig o gymharu â 53 y cant yn 2012.

- Roedd ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig ar ei uchaf yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (65 y cant). Roedd ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith:

    - Pobl rhwng 16 a 34 oed;
    - Ymatebwyr o raddfeydd cymdeithasol is.

- Fodd bynnag, rhwng 2012 a 2013, cynyddodd ymwybyddiaeth pobl rhwng 16 a 34 oed o unrhyw newid arfaethedig yn sylweddol o 32 y cant i 44 y cant, a pharhaodd yn sefydlog ymhlith grwpiau oedran hŷn.

- O blith y rheini a oedd yn ymwybodol o newid arfaethedig i'r system rhoi organau, y brif ffynhonnell o ymwybyddiaeth oedd rhaglen newyddion neu raglen arall ar y teledu.

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o newid arfaethedig sut roeddent yn meddwl y gallai'r system newid. Dywedodd saith allan o bob deg o ymatebwyr y byddai'n newid i system optio allan, neu i system cydsyniad tybiedig.

### Ymwybyddiaeth o fanylion cynnig Llywodraeth Cymru i newid y system rhoi organau

- Dangoswyd disgrifiad o'r system rhoi organau newydd a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu wedi clywed unrhyw beth am y cynnig o'r blaen. Rhwng 2012 a 2013, parhaodd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu wedi clywed rhywbeth am y newid arfaethedig yn sefydlog, sef 58 y cant.

- Roedd ymwybyddiaeth o'r cynnig ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, lle roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr (65 y cant) wedi gweld neu wedi clywed rhywbeth am y cynnig.

- Roedd ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith:

    - Pobl rhwng 16 a 34 oed;
    - Ymatebwyr o raddfeydd cymdeithasol is.

- Fodd bynnag, rhwng 2012 a 2013, cynyddodd ymwybyddiaeth pobl rhwng 16 a 34 oed o'r cynnig yn sylweddol o 34 y cant i 47 y cant.

**Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau**

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr p'un a oeddent o blaid neu yn erbyn y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau, neu p'un a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt er mwyn penderfynu. Rhwng 2012 a 2013:

    - cynyddodd nifer yr ymatebwyr **o blaid** yn sylweddol o 49 y cant i 61 y cant;
    - gostyngodd nifer yr ymatebwyr **yn erbyn** yn sylweddol o 22 y cant i 17 y cant;
    - gostyngodd nifer yr ymatebwyr **yr oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt** er mwyn penderfynu yn sylweddol o 21 y cant i 16 y cant.

- Roedd cefnogaeth tuag at y newidiadau arfaethedig ar ei uchaf yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru (roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr o'u plaid), ac ar ei isaf ym Mae Abertawe (roedd tua hanner yr ymatebwyr o'u plaid).

- Ar draws pob categori oedran, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newidiadau arfaethedig yn sylweddol rhwng 2012 a 2013. Roedd cefnogaeth tuag at y newidiadau arfaethedig ar ei uchaf ymhlith pobl rhwng 35 a 54 oed o hyd (65 y cant o blaid); ac ar ei isaf ymhlith ymatebwyr 55 oed a throsodd (57 y cant o blaid).

- Roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl graddfa gymdeithasol, gyda 65 y cant o ymatebwyr ABC1 (rheolwyr, gweithwyr gweinyddol a gweithwyr proffesiynol) o blaid y newidiadau arfaethedig o gymharu â 58 y cant o ymatebwyr C2DE (gweithwyr llaw, pensiynwyr y wladwriaeth a phobl ddi-waith).

- Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan unigolion a oedd o blaid y newid mewn deddfwriaeth oedd y gellid achub rhagor o fywydau. Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd gan unigolion a oedd yn erbyn y newid oedd ei fod yn golygu nad oes dewis gan yr unigolyn.

**Datganiadau am y system feddal o optio allan**

- Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y ‘bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' a bod 'y system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid

dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny' yn sylweddol o tua dwy ran o dair i dri chwarter.

- Yn 2013, roedd tua thraean o'r ymatebwyr yn cytuno bod 'y system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth' a bod 'rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' - sef gostyngiad sylweddol o tua phedwar o bob deg o ymatebwyr yn 2012.

**Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau**

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth roeddent yn meddwl y byddent yn ei wneud os cyflwynir y system feddal newydd o optio allan o roi organau. Rhwng 2012 1 2013:
    - cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a fyddai'n **optio i mewn neu'n gwneud dim** yn sylweddol o 63 y cant i 68 y cant;
    - parhaodd cyfran yr ymatebwyr a fyddai'n **optio allan** yn sefydlog, sef tua un o bob pump o ymatebwyr;
    - gostyngodd cyfran yr ymatebwyr **nad oeddent yn gwybod** yn sylweddol o 18 y cant i 12 y cant.

- Ar draws pob rhanbarth yn 2013, nododd mwyafrif yr ymatebwyr y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim. Fodd bynnag, roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd y byddent yn optio allan yn amrywio o 16 y cant (Gogledd Cymru a Chaerdydd a De Ddwyrain Cymru) i 30 y cant (y Cymoedd).

- Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr 55 oed a throsodd yn meddwl y byddent yn optio allan (25 y cant) na'r rheini o dan 55 oed (17 y cant).

**Rôl y teulu mewn rhoi organau**

- Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau gydag aelod o'r teulu yn sylweddol o 38 y cant i 42 y cant. Yn 2013, roedd y ffigur hwn yn uwch ymhlith merched (49 y cant) na dynion (36 y cant).

- Rhwng 2012 a 2013, parhaodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau petaent yn marw yn sefydlog, sef tua chwech o bob deg. Yn 2013, roedd y ffigur hwn yn uwch ymhlith ymatebwyr ABC1 (67 y cant) nag ymatebwyr C2DE (56 y cant).

**Ymgyrch Calon i Galon**

- Dangoswyd delweddau o'r hysbysebion poster ar gyfer ymgyrch *Calon i Galon* Llywodraeth Cymru i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld unrhyw rai ohonynt o'r blaen ai peidio. Roedd cyfanswm o 12 y cant o'r ymatebwyr wedi gweld un neu fwy o'r hysbysebion poster.

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oedd y prif negeseuon yr oedd yr hysbysebion yn ceisio eu cyfleu, yn eu barn hwy. Yr atebion mwyaf cyffredin oedd mai'r neges oedd annog pobl i roi organau, neu'n fwy penodol, i'w hannog i drafod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau.

- Roedd cyfanswm o ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (67 y cant) yn cytuno bod yr hysbysebion yn 'hawdd i'w deall'; ac roedd traean (33 y cant) yn cytuno bod yr hysbysebion wedi gwneud iddynt 'ystyried trafod eu dymuniadau mewn perthynas â rhoi organau' gyda'u teulu. Roedd tua hanner yr ymatebwyr (53 y cant) yn anghytuno â'r datganiad 'nad yw'r hysbysebion hyn wedi'u hanelu at bobl fel fi'.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

Derbyniodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer caniatâd i roi organau a meinwe pobl sydd wedi marw yng Nghymru, a ddaw'n weithredol ar 1 Rhagfyr 2015.

O dan y gyfraith newydd, ystyrir bod oedolion sy'n byw ac yn marw yng Nghymru wedi rhoi eu caniatâd i roi organau oni fyddant wedi cofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr (optio i mewn) neu wedi cofrestru penderfyniad i beidio â bod yn rhoddwr (optio allan). Bydd angen i bobl fod dros 18 oed a bydd angen iddynt fod wedi byw yng Nghymru am 12 mis neu fwy er mwyn i gydsyniad tybiedig fod yn berthnasol. Lle bydd cydsyniad tybiedig yn berthnasol, bydd y gyfraith yn caniatáu i aelodau'r teulu ddarparu gwybodaeth os ydynt yn gwybod na fyddai'r sawl sydd wedi marw wedi dymuno rhoi caniatâd. Caiff pobl nad oes ganddynt y galluedd i ddeall y gallai cydsyniad fod yn dybiedig hefyd eu heithrio o'r system newydd hon.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyfathrebu dwy flynedd o hyd cyn i'r system newydd ddod yn weithredol er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd wedi'u hysbysu'n llawn o ran yr hyn y bydd y newidiadau'n ei olygu a'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a llywio ei datblygiad, mae angen gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r gyfraith rhoi organau, a'u hagweddau at newidiadau i'r ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Er mwyn diwallu'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Cesglir data ar gyfnodau rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016.

## 1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Gofynnwyd cwestiynau am roi organau i 1,015 o ymatebwyr a gafodd gyfweliad fel rhan o gam mis Mehefin 2013 o Arolwg Omnibws Cymru. Cynlluniwyd yr arolwg i gynrychioli'r boblogaeth breswyl 16 oed a throsodd yng Nghymru.

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 14 a 25 Mehefin 2013, gyda nifer fach o gyfweliadau yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd y gwaith maes cyn y sylw mawr a gafwyd yn y cyfryngau yn ystod cyfnod pasio'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Gorffennaf 2013.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cynrychiolaeth ffeithiol o'r canlyniadau, ac yn cyflwyno canfyddiadau am agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd mewn perthynas â'r system rhoi organau - nid yw'n ystyried cysylltiadau achosol. Lle y bo'n bosibl, caiff canfyddiadau eu cymharu â'r

arolwg llinell sylfaen a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2012[1]. Defnyddir y dadansoddiad hefyd i lywio'r ffordd y caiff gohebiaeth ei thargedu ymhlith grwpiau gwahanol o'r boblogaeth.

### 1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol

Cynhaliwyd profion arwyddocâd o'r data fel rhan o'r dadansoddiad er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau a llywio'r ymgyrch gyfathrebu. Pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd y ceir y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 - h.y. mae'n debygol o adlewyrchu cydberthynas wirioneddol yn y boblogaeth[2].

Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn Atodiad A. Atodir yr holiadur llawn yn Atodiad B.

---

[1] Mae'r adroddiad canfyddiadau ar gael yma: http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/publicattitudesorgandonation/?skip=1&lang=cy

[2] Pan fydd data arolwg yn cael ei brofi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplo cwota cyfrannol, ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol go iawn, a bod yn fanwl gywir. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar y lefel cyfwng 95 y cant.

# 2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

## 2.1 Dealltwriaeth o'r system rhoi organau bresennol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut roeddent yn meddwl bod y system bresennol o roi organau yn gweithio. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd bod angen i unigolion optio i mewn neu gofrestru fel rhoddwr, neu gario cerdyn rhoddwr. Fodd bynnag, dywedodd un o bob pump ymatebwr nad oedd yn gwybod (Tabl 2.1).

**Tabl 2.1: Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl mae'r system bresennol o roi organau yn gweithio - hynny yw, sut ydych chi'n meddwl mae organau'n cael eu rhoi?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---:|
| Optio i mewn / cofrestru | 40 |
| Cario cerdyn rhoddwr | 36 |
| *Ddim yn gwybod* | *21* |
| Caniatâd gan y teulu / y teulu sy'n penderfynu | 6 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| System orfodol newydd | |
| System optio allan | |
| Defnyddio organau'r rheini sydd wedi marw | |
| *Arall* | |

Sail: 1,015 o ymatebwyr
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

## 2.2 Ymwybyddiaeth, heb awgrymu, o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau. Yn 2013, nododd 57 y cant o'r ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o newid arfaethedig o gymharu â 53 y cant yn 2012 (Tabl 2.2).


**Tabl 2.2: Ydych chi'n gwybod am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr 2012 [a] | Canran yr ymatebwyr 2013 [a] |
|---|---|---|
| Ydw | 53 | 57 |
| Nac ydw | 46 | 41 |
| *Ddim yn gwybod* | *1* | *1* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau arfaethedig yn sylweddol yng Ngogledd Cymru o 48 y cant i 59 y cant o'r ymatebwyr. Roedd ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau arfaethedig ar ei uchaf o hyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (Ffigur 2.1).


**Ffigur 2.1: Ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).

Roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig ac oedran, gyda'r ymwybyddiaeth isaf ymhlith y categori oedran ifancaf (pobl rhwng 16 a 34 oed). Fodd bynnag, fel y dengys Ffigur 2.2, cynyddodd ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig ymhlith y grŵp oedran hwn yn sylweddol rhwng 2012 a 2013, a pharhaodd yn sefydlog ymhlith y grwpiau oedran hŷn.

**Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl oedran**




Sail: 1,006 o ymatebwyr; 1,015 o ymatebwyr.

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol hefyd yn ôl graddfa gymdeithasol, gyda 68 y cant o ymatebwyr ABC1 yn ymwybodol o newid arfaethedig, o gymharu â 48 y cant o ymatebwyr C2DE[3]. Y ffigurau ar gyfer 2012 oedd 63 y cant (ABC1) a 46 y cant (C2DE).

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran cyfran y dynion a chyfran y merched a oedd yn ymwybodol o newid arfaethedig.

## 2.3 Ffynhonnell o ymwybyddiaeth o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau

O blith y rheini a oedd yn ymwybodol o newid arfaethedig i'r system rhoi organau, y brif ffynhonnell o ymwybyddiaeth oedd rhaglen newyddion neu raglen arall ar y teledu (Tabl 2.3).

[3] Mae graddfeydd cymdeithasol ABC1 yn cynnwys rheolwyr, gweithwyr gweinyddol a gweithwyr proffesiynol. Mae graddfeydd cymdeithasol C2DE yn cynnwys gweithwyr llaw, pensiynwyr y wladwriaeth a phobl ddi-waith.

**Tabl 2.3: Sut oeddech chi'n gwybod am y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau bresennol?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** [a] |
|---|---|
| Ar y teledu (newyddion / rhaglen) | 71 |
| Rhywun wedi dweud wrtha i | 9 |
| Ar y radio (newyddion / rhaglen) | 8 |
| Papur newydd lleol (erthygl newyddion) | 7 |
| Ar y teledu (hysbysebion) | 6 |
| Ar-lein | 5 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 5 y cant o'r ymatebwyr** [b] | |
| Taflen neu boster | |
| Papur newydd cenedlaethol Cymru (erthygl newyddion) | |
| Papur newydd cenedlaethol y DU (erthygl newyddion) | |
| *Arall* | |

Sail: Yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau (580 o ymatebwyr).
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

## 2.4 Dealltwriaeth o'r newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o newid arfaethedig sut roeddent yn meddwl y gallai'r system newid. Dywedodd saith allan o bob deg o ymatebwyr y byddai'n newid i system optio allan, neu i system cydsyniad tybiedig Tabl 2.4).

**Tabl 2.4: Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl y gallai'r system newid?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---|
| Optio allan / cydsyniad tybiedig | 69 |
| Gorfodol | 10 |
| *Ddim yn gwybod* | *10* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 10 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| Y teulu fydd yn penderfynu | |
| Ni fydd gan y teulu unrhyw gyfle i leisio barn | |
| Angen cario cerdyn optio allan | |
| Optio i mewn | |
| *Arall* | |

Sail: Yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau (580 o ymatebwyr).
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

## 2.5 Ymwybyddiaeth o fanylion cynnig Llywodraeth Cymru i newid y system rhoi organau

Dangoswyd disgrifiad i'r holl ymatebwyr o'r system rhoi organau newydd sy'n cael ei chynnig gan Lywodraeth Cymru[4] a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y cynnig yn barod.

Fel y dangosir yn Nhabl 2.5, rhwng 2012 a 2013 ni fu unrhyw newid yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu wedi clywed rhywbeth am y newid arfaethedig.

[4] Yn arolwg mis Mehefin 2013, dangoswyd y disgrifiad canlynol i'r ymatebwyr: "Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried newid y weithdrefn rhoi organau i system 'feddal o optio allan'. Bydd hyn yn golygu y bydd pobl yn cael y cyfle i 'optio allan' yn ffurfiol o roi organau drwy roi eu henw ar gofrestr. Os byddant yn dewis peidio â gwneud hynny, ar ôl cael y cyfle, yna caiff hyn ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, ac yn benderfyniad yr anogir teuluoedd yn sensitif i'w dderbyn. Bydd y gyfraith yn caniatáu i aelodau'r teulu wrthwynebu rhoi ar y sail eu bod yn gwybod na fyddai'r sawl sydd wedi marw wedi dymuno rhoi caniatâd. Bydd y cyfle i 'optio i mewn' a chofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr yn parhau."

**Tabl 2.5: Cyn heddiw, oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn?** *(Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)* [a]


| Ymateb | Canran yr ymatebwyr 2012 [b] | Canran yr ymatebwyr 2013 [b] |
|---|---|---|
| Oeddwn | 58 | 58 |
| Nac oeddwn | 41 | 41 |
| *Ddim yn gwybod* | *1* | *1* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Roedd geiriad y disgrifiadau a ddangoswyd yn 2012 a 2013 ychydig yn wahanol er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn ystod y cyfnod hwn - gweler Atodiad Cam ragor o fanylion.
(b) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng rhanbarth ac ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru. Roedd ymwybyddiaeth ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, lle roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r cynnig.

Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn sylweddol yng Ngogledd Cymru, er na fu unrhyw newidiadau sylweddol mewn unrhyw ranbarthau eraill (Ffigur 2.3).

**Ffigur 2.3: Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn ôl rhanbarth**





Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).

Roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng oedran ac ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru. Fel y dengys Ffigur 2.4, roedd ymwybyddiaeth o'r cynnig yn uwch ymhlith y categorïau oedran hŷn.

Fodd bynnag, rhwng 2012 a 2013, cynyddodd ymwybyddiaeth yn sylweddol ymhlith pobl rhwng 16 a 34 oed (ni fu unrhyw newidiadau sylweddol ar gyfer y ddau gategori oedran arall).

**Ffigur 2.4: Ymwybyddiaeth o gynnig Llywodraeth Cymru yn ôl oedran**




Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol o ran cyfran y dynion a chyfran y merched a oedd yn ymwybodol o newid arfaethedig. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl graddfa gymdeithasol, gyda 69 y cant o ymatebwyr ABC1 wedi gweld neu wedi clywed rhywbeth am gynnig Llywodraeth Cymru, o gymharu â 50 y cant o ymatebwyr C2DE.

# 3. Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau

## 3.1 Lefelau'r gefnogaeth ar gyfer system optio allan

Gofynnwyd i'r ymatebwyr p'un a oeddent o blaid neu yn erbyn y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru, neu p'un a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt er mwyn penderfynu.

Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newid mewn deddfwriaeth yn sylweddol o 49 y cant i 61 y cant, a gostyngodd y gyfran a oedd yn erbyn y newid yn sylweddol o 22 y cant i 17 y cant. Gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd fod angen rhagor o wybodaeth arnynt er mwyn penderfynu yn sylweddol hefyd (Tabl 3.1).

**Tabl 3.1: Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau?**


| Ymateb [a] | Canran yr ymatebwyr 2012 [a] | Canran yr ymatebwyr 2013 [b] |
|---|---:|---:|
| Rwyf **o blaid** y newid hwn mewn deddfwriaeth | 49 | 61 |
| Rwyf **yn erbyn** y newid hwn mewn deddfwriaeth | 22 | 17 |
| Mae angen rhagor o wybodaeth arna i er mwyn penderfynu | 21 | 16 |
| *Ddim yn gwybod* | *8* | *6* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Roedd geiriad yr opsiynau o ran ymatebion a ddangoswyd yn 2012 a 2013 ychydig yn wahanol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gynigiwyd i'r ddeddfwriaeth yn fanylach - gweler Atodiad C am ragor o fanylion.
(b) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Rhwng 2012 a 2013, gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn cefnogaeth yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru, lle y cynyddodd 20 pwynt canran (Ffigur 3.1).

Yn 2013, roedd cefnogaeth tuag at y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau ar ei uchaf yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru a Gogledd Cymru (lle roedd tua dwy ran o dair o'r ymatebwyr o'u plaid), ac ar ei isaf ym Mae Abertawe (lle roedd tua hanner yr ymatebwyr o'u plaid).


**Ffigur 3.1: O blaid neu yn erbyn newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).

Ar draws pob categori oedran, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newid arfaethedig yn sylweddol rhwng 2012 a 2013 (Ffigur 3.2). Parhaodd cefnogaeth tuag at y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau ar ei uchaf ymhlith pobl rhwng 35 a 54 oed o hyd, gyda thua dwy ran o dair (65 y cant) o blaid yn 2013.

**Ffigur 3.2: O blaid neu yn erbyn newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yn ôl oedran**



Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl graddfa gymdeithasol, gyda 65 y cant o ymatebwyr ABC1 o blaid o gymharu â 58 y cant o ymatebwyr C2DE. Yn 2012, y ffigurau cyfatebol oedd 56 y cant (ABC1) a 44 y cant (C2DE), felly ceir cynnydd sylweddol yng nghyfran yr ymatebwyr o blaid yn y ddwy raddfa gymdeithasol. Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ôl rhyw.

## 3.2 Rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am y rhesymau pam eu bod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan mewn perthynas â rhoi organau.

O blith y rheini a oedd y blaid, y rheswm mwyaf cyffredin - a nodwyd gan chwarter o'r ymatebwyr - oedd y byddai'n arwain at achub rhagor o fywydau (Tabl 3.2). O blith y rheini a oedd yn erbyn, y rheswm mwyaf cyffredin - a nodwyd gan tua thraean o'r ymatebwyr - oedd ei fod yn diddymu dewis yr unigolyn (Tabl 3.3).

**Tabl 3.2: Allwch chi ddweud wrtha i pam eich bod O BLAID newid i system optio allan?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---|
| Achub bywydau | 25 |
| Cynyddu'r rhoddwyr / organau sydd ar gael | 13 |
| O fudd i bobl eraill / helpu pobl | 11 |
| Dyw pobl ddim yn mynd ati i wneud penderfyniad | 10 |
| Mae angen rhagor o organau | 8 |
| Mae'n dal yn bosibl optio allan / mae'n rhoi dewis i bobl | 8 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai nag 8 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| Yn cytuno â'r system / o'i phlaid | |
| Haws / symlach | |
| Does dim angen organau arnoch ar ôl i chi farw | |
| Y peth iawn i'w wneud / peth da | |
| *Arall* | |

Sail: Yr holl ymatebwyr a oedd o blaid newid i system lle bydd pobl yn optio allan o roi organau yn hytrach nag optio i mewn (619 o ymatebwyr)
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

**Tabl 3.3: Allwch chi ddweud wrtha i pam eich bod YN ERBYN newid i system optio allan?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---|
| Diddymu'r dewis / mynd allan o reolaeth yr unigolyn | 32 |
| Mae'n well gen i'r system bresennol / dylwn orfod optio i mewn os wyf am roi | 20 |
| Dydw i ddim am roi / dydw i ddim yn cytuno â'r system | 16 |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 10 y cant o'r ymatebwyr [b]** | |
| Gallai beri gofid i'r teulu | |
| Efallai na fydd pobl yn gwybod am y system (ac felly nid oes dewis yn cael ei wneud) | |
| Rheolaeth y wladwriaeth / llywodraeth | |
| Annheg gwneud rhagdybiaeth | |
| *Arall* | |

Sail: Yr holl ymatebwyr a oedd yn erbyn newid i system lle bydd pobl yn optio allan o roi organau yn hytrach nag optio i mewn (171 o ymatebwyr)
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd fod angen rhagor o wybodaeth arnynt er mwyn penderfynu p'un a oeddent o blaid neu'n erbyn y newidiadau arfaethedig (166 o ymatebwyr) pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt. Y rheswm mwyaf cyffredin, a roddwyd gan 47 y cant o'r ymatebwyr hynny, oedd bod angen rhagor o fanylion arnynt am sut y byddai'r system newydd yn gweithio (ni ddangosir y tabl).


# 4. Datganiadau am y system feddal o optio allan o roi organau

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol (dau wedi'u geirio mewn modd cadarnhaol a dau mewn modd negyddol) am y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau:

- Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau
- Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny
- Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny
- Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth

Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y ‘bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' a bod 'y system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny' o tua dwy ran o dair i dri chwarter. Yn 2013, roedd tua thraean o'r ymatebwyr yn cytuno bod 'y system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth' a bod 'rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' - sef gostyngiad o tua pedwar o bob deg o ymatebwyr yn 2012 (Ffigur 4.1).

**Ffigur 4.1: Datganiadau am y system feddal o optio allan o roi organau [a, b]**





Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Mae'r categori 'Cytuno' yn cynnwys 'Cytuno'n gryf' a 'Cytuno'. (b) Mae'r categori 'Anghytuno' yn cynnwys 'Anghytuno'n gryf' ac 'Anghytuno'. Mae'r categori 'Niwtral' yn cynnwys 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' a 'Ddim yn gwybod'.
(b) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

### 4.1 Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau’

Yn 2013, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno 'y bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau'. Roedd y gyfran uchaf yn cytuno â'r datganiad hwn yng Ngogledd Cymru (84 y cant) a'r gyfran isaf yn y Cymoedd (68 y cant).

Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad hwn ar draws pob rhanbarth, gan amrywio o bedwar pwynt canran yn y Cymoedd i 13 pwynt canran ym Mae Abertawe (Ffigur 4.2).

**Ffigur 4.2: ‘Bydd y system feddal arfaethedig o optio allan i Gymru yn golygu achub rhagor o fywydau' yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).


Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn 2013 yn ôl oedran, rhyw na graddfa gymdeithasol o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad.

## 4.2 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny'

Yn 2013, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno 'bod rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny'. Roedd cyfran y bobl a oedd yn cytuo â'r datganiad ar ei uchaf yng Ngogledd Cymru a Bae Abertawe, lle roedd tua pedwar o bob deg o'r ymatebwyr yn cytuno; ac roedd ar ei isaf yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru, lle roedd llai na chwarter yn cytuno (Ffigur 4.3).

Rhwng 2012 a 2013, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad ymhob rhanbarth ac eithrio Canolbarth a Gorllewin Cymru, lle y cynyddodd 10 pwynt canran. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad ym Mae Abertawe (14 pwynt canran).

**Ffigur 4.3: 'Mae rhoi organau yn rhodd a bydd y system feddal o optio allan yn rhoi diwedd ar hynny' yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).


Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn 2013 yn ôl oedran, rhyw na graddfa gymdeithasol o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad.

### 4.3 'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'

Yn 2013, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno bod y 'system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny'. Roedd y gyfran uchaf o bobl yn cytuno yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru, lle roedd tua wyth o bob deg o ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad; ac roedd isaf yn y Cymoedd, lle roedd 68 y cant yn cytuno (Ffigur 4.4).

Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad fwyaf yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru (15 pwynt canran).

**Ffigur 4.4: 'Mae'r system feddal o optio allan yn cynnal rhyddid dewis gan fod modd i unrhyw un optio allan o roi organau os ydynt yn dymuno gwneud hynny' yn ôl rhanbarth**





Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn 2013 yn ôl oedran na rhyw o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl graddfa gymdeithasol, gyda chyfran fwy o ymatebwyr ABC1 (79 y cant) yn cytuno â'r datganiad nag ymatebwyr C2DE (73 y cant).

### 4.4 'Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth'

Rhwng 2012 a 2013, gostyngodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad bod y 'system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth' ymhob rhanbarth ac eithrio Canolbarth a Gorllewin Cymru (lle y cynyddodd chwe phwynt canran). Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn y Cymoedd (20 pwynt canran) a Bae Abertawe (18 pwynt canran).

**Ffigur 4.5: 'Mae'r system feddal o optio allan yn rhoi gormod o reolaeth i'r llywodraeth' yn ôl rhanbarth**




Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn 2013 yn ôl rhyw na graddfa gymdeithasol o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r datganiad. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl oedran, gyda'r gyfran a oedd yn cytuno â'r datganiad yn amrywio o 25 y cant o bobl rhwng 16 a 34 oed i 36 y cant o'r rheini a oedd yn 55 oed a throsodd.

## 5. Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth roeddent yn meddwl y byddent yn ei wneud os cyflwynir y system feddal newydd o optio allan o roi organau.

Rhwng 2012 a 2013, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn **optio i mewn neu'n gwneud dim** yn sylweddol o 63 y cant i 68 y cant; a pharhaodd y gyfran a ddywedodd y byddent yn **optio allan** yn sefydlog, sef tua un o bob pump o ymatebwyr.

Gostyngodd y gyfran a ddywedodd nad oeddent yn gwybod yn sylweddol o 18 y cant yn 2012 i 12 y cant yn 2013 (Tabl 5.1).

**Tabl 5.1: Os cyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei wneud?**

| **Ymateb** [a] | **Canran yr ymatebwyr 2012** [b] | **Canran yr ymatebwyr 2013** [b] |
|---|---:|---:|
| Optio i mewn neu wneud dim | 63 | 68 |
| Optio allan | 19 | 20 |
| *Ddim yn gwybod* | *18* | *12* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Roedd geiriad yr opsiynau o ran ymatebion a ddangoswyd yn 2012 a 2013 ychydig yn wahanol er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a gynigiwyd i'r ddeddfwriaeth yn fanylach - gweler Atodiad C am ragor o fanylion.
(b) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.


Yn 2013, roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng rhanbarth a beth roedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddent yn ei wneud o dan system newydd o optio allan.

Fel y dengys Ffigur 5.1, roedd cyfran yr ymatebwyr a nododd y byddent yn **optio allan** yn amrywio o 16 y cant (Gogledd Cymru a Chaerdydd a De Ddwyrain Cymru) i 30 y cant (y Cymoedd).

Ymhob rhanbarth, nododd mwyafrif yr ymatebwyr y byddent yn **optio i mewn neu'n gwneud dim**. Roedd hyn yn amrywio o 55 y cant (y Cymoedd) i 73 y cant (Gogledd Cymru a Chaerdydd a De Ddwyrain Cymru).

Rhwng 2012 a 2013, yng Nghaerdydd a De Ddwyrain Cymru y gwelwyd y newid mwyaf o ran yr hyn roedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddent yn ei wneud o dan y system newydd, lle y gostyngodd cyfran y bobl nad oeddent yn gwybod beth y byddent yn ei wneud o tua thraean yn 2012 i tua un o bob deg yn 2013.

**Ffigur 5.1: Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl rhanbarth [a]**





Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Yn 2013, roedd cydberthynas arwyddocaol rhwng oedran a beth roedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddent yn ei wneud o dan system newydd. Roedd cyfran uwch o'r ymatebwyr 55 oed a throsodd yn meddwl y byddent yn optio allan (25 y cant) na'r rheini o dan 55 oed (17 y cant).

Rhwng 2012 a 2013, gwelwyd y newid mwyaf yn y grŵp oedran 35 i 54 oed, gyda'r gyfran a ddywedodd eu bod yn meddwl y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim yn cynyddu o 63 y cant i 74 y cant.

**Ffigur 5.2: Ymddygiad o dan system feddal o optio allan yn ôl oedran [a]**




Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw na graddfa gymdeithasol o ran beth roedd yr ymatebwyr yn meddwl y byddent yn ei wneud os cyflwynwyd y system newydd o optio allan.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr pam roeddent yn meddwl y byddent yn dewis optio allan, optio i mewn neu wneud dim. O blith y rheini a ddywedodd y byddent yn optio allan, dywedodd sawl un o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod, neu na allent roi rheswm pam. O blith y rheini a fyddai'n optio i mewn (neu'n parhau felly), y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd oedd y byddai'n helpu eraill, neu na allent roi rheswm pam. O blith y rheini a ddywedodd na fyddent yn gwneud dim, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod, neu na allent roi rheswm pam (ni ddangosir y tabl).

## 5.1 Ymddygiad ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG ar hyn o bryd

O blith yr ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod wedi'u cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG ar hyn o bryd (26 y cant o'r holl ymatebwyr)[5]:

- dywedodd 90 y cant y byddent yn optio i mewn / yn parhau ar y gofrestr (87 y cant yn 2012);
- byddai 4 y cant yn optio allan (2 y cant yn 2012);
- nid oedd 6 y cant yn gwybod (11 y cant yn 2012).

[5] Yn ôl Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT), roedd 32 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru ar y Gofrestr Rhoi Organau erbyn mis Mawrth 2013. Nid yw'r rheswm am y gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn yn eglur, er bod gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2012) yn awgrymu nad yw rhai pobl sy'n cario cerdyn rhoddwr bob amser yn siŵr p'un a ydynt ar y gofrestr. Gweler http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/organdonation/?lang=cy

## 6. Rôl y teulu mewn rhoi organau

Gofynnwyd cwestiynau am rôl y teulu mewn rhoi organau. Fel y dengys Tabl 6.1, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi trafod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl iddynt farw gydag aelod o'r teulu yn sylweddol o 38 y cant i 42 y cant rhwng 2012 a 2013.

**Tabl 6.1: Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch roi organau ar ôl i chi farw ag aelod o'r teulu?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr 2012 [a] | Canran yr ymatebwyr 2013 [a] |
|---|---|---|
| Do | 38 | 42 |
| Naddo | 62 | 57 |

Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Yn 2013, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran na graddfa gymdeithasol o ran cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau ar ôl iddynt farw gydag aelod o'r teulu. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl rhyw, gyda chyfran uwch o ferched (49 y cant) na dynion (36 y cant) wedi trafod eu dymuniadau gydag aelod o'r teulu.

Rhwng 2012 a 2013, parhaodd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau petaent yn marw yn sefydlog, sef tua chwech o bob deg (Tabl 6.2).

**Tabl 6.2: Petaech chi'n marw, ydych chi'n meddwl y byddai aelod o'ch teulu'n gwybod eich dymuniadau ynghylch rhoi organau?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr 2012 [a] | Canran yr ymatebwyr 2013 [a] |
|---|---|---|
| Ydw | 62 | 61 |
| Nac ydw | 34 | 35 |
| *Ddim yn gwybod* | *5* | *3* |

Sail: 1,006 o ymatebwyr (2012); 1,015 o ymatebwyr (2013).
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Yn 2013, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran na rhyw o ran p'un a oedd ymatebwyr yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod eu dymuniadau petaent yn marw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl graddfa gymdeithasol, gyda chyfran fwy o ymatebwyr ABC1 (67 y cant) nag ymatebwyr C2DE (56 y cant) yn meddwl y byddai aelod o'r teulu yn gwybod eu dymuniadau.

## 6.1 Datganiadau am rôl y teulu


Yn 2013, darllenwyd pedwar datganiad i'r holl ymatebwyr (y mae dau ohonynt yn wir, a dau yn anwir) am rôl y teulu mewn rhoi organau o dan y system feddal newydd o optio allan lle **nad** yw'r sawl sydd wedi marw wedi optio allan. Wedyn gofynnwyd iddynt i ba raddau roeddent yn meddwl bod y datganiadau yn wir neu'n anwir. Roedd y datganiadau fel a ganlyn:

- Ni fydd gan y teulu unrhyw ran i'w chwarae yn y broses rhoi organau [anwir]
- Gall y teulu ddarparu tystiolaeth bod y sawl sydd wedi marw yn gwrthwynebu rhoi ei organau ond na chafodd gyfle i gofrestru yn ystod ei oes [gwir]
- Gall y teulu drechu dymuniadau'r sawl sydd wedi marw [anwir]
- Os bydd y penderfyniad i roi yn peri gofid i'r teulu, ni fydd clinigwyr yn bwrw ati â'r broses rhoi organau [gwir]

Gofynnwyd y cwestiynau hyn er mwyn canfod dealltwriaeth y cyhoedd o'r maes hwn o'r ddeddfwriaeth, ac er mwyn monitro'r ddealltwriaeth honno dros amser. Ni ofynnwyd y cwestiynau hyn yn 2012.

Ar gyfer y ddau ddatganiad gwir, roedd mwy na hanner yr ymatebwyr yn iawn i feddwl bod y datganiadau yn wir, ac roedd rhwng un rhan o bump a chwarter yn meddwl nad oedd y datganiadau yn wir (Ffigur 6.1).


**Ffigur 6.1: Datganiadau gwir am y system feddal o optio allan o roi organau [a, b]**




Sail: 1,015 o ymatebwyr.
(a) Mae'r categori 'Gwir' yn cynnwys 'Yn bendant yn wir' a 'Fwy na thebyg yn wir'. Mae'r categori 'Anwir' yn cynnwys 'Yn bendant yn anwir' a 'Fwy na thebyg yn anwir'.
(b) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Ar gyfer y ddau ddatganiad anwir, roedd bron i hanner yr ymatebwyr yn iawn i feddwl nad oedd y datganiadau yn wir, ac roedd tua thraean yn meddwl eu bod yn wir (Ffigur 6.2).

**Ffigur 6.2: Datganiadau anwir am y system feddal o optio allan o roi organau [a, b]**




Sail: 1,015 o ymatebwyr.
(a) Mae'r categori 'Gwir' yn cynnwys 'Yn bendant yn wir' a 'Fwy na thebyg yn wir'. Mae'r categori 'Anwir' yn cynnwys 'Yn bendant yn anwir' a 'Fwy na thebyg yn anwir'.
(b) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

### 6.2 Enwebu cynrychiolydd

Yn 2013, dywedwyd y canlynol wrth yr ymatebwyr:

> 'Yn hytrach na gwneud penderfyniad yn ystod eich oes ynghylch rhoi caniatâd i fod yn rhoddwr organau ai peidio, gallwch yn lle hynny enwebu cynrychiolydd i wneud penderfyniad ar eich rhan. Dyma'r achos o dan y system bresennol o 'optio i mewn' a bydd yn parhau os caiff y system newydd o 'optio allan' ei chyflwyno.'

Wedyn gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd hyn yn rhywbeth y byddent yn ystyried ei wneud. Fel y dengys Tabl 6.3, dywedodd cyfran debyg o'r ymatebwyr fod hyn yn rhywbeth y byddent yn ystyried ei wneud (44 y cant) â'r rheini a ddywedodd na fyddent yn ei ystyried (47 y cant).

Roedd cyfran fach (dau y cant) eisoes wedi enwebu cynrychiolydd i wneud penderfyniad ar eu rhan.

**Tabl 6.3: Fyddech chi'n ystyried enwebu cynrychiolydd i wneud penderfyniad ar eich rhan i fod yn rhoddwr organau ai peidio?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr [a]** |
|---|---:|
| Byddwn | 44 |
| Na fyddwn | 47 |
| Rwyf eisoes wedi enwebu cynrychiolydd | 2 |
| *Ddim yn gwybod* | 7 |

Sail: 1,015 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran na rhyw.

# 7. Ymgyrch Calon i Galon

Yn 2013, gofynnwyd cwestiynau i'r ymatebwyr am ymgyrch *Calon i Galon* Llywodraeth Cymru. Nod yr ymgyrch hon yw annog teuluoedd i drafod eu dymuniadau o ran rhoi organau.

## 7.1 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ymgyrch Calon i Galon

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent wedi gweld neu wedi clywed am ymgyrch o'r enw *Calon i Galon*. Fel y dengys Tabl 7.1, roedd 13 y cant o'r ymatebwyr wedi gweld neu wedi clywed am yr ymgyrch.

**Tabl 7.1: Ydych chi wedi gweld neu wedi clywed am ymgyrch o'r enw Calon i Galon?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---:|
| Ydw | 13 |
| Nac ydw | 85 |
| *Ddim yn gwybod* | *2* |

Sail: 1,015 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

O blith y rheini a oedd wedi gweld neu wedi clywed am *Calon i Galon* (132 o ymatebwyr), dywedodd dros eu hanner (78 o ymatebwyr) eu bod wedi dod yn ymwybodol o'r ymgyrch drwy raglen neu hysbyseb ar y teledu.

Gofynnwyd i'r rheini a oedd wedi gweld neu wedi clywed am *Calon i Galon* (132 o ymatebwyr) beth oedd yr ymgyrch yn ymwneud ag ef, yn eu barn hwy. Dywedodd tua eu hanner (64 o ymatebwyr) nad oeddent yn gwybod neu nad oeddent yn siŵr, a dywedodd 38 o ymatebwyr ei fod yn ymwneud â rhoi organau, neu'n fwy penodol, â thrafod y penderfyniad i roi organau gydag aelodau o'r teulu neu ffrindiau.

## 7.2 Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o hysbysebion Calon i Galon

Dangoswyd ddelweddau o'r hysbysebion poster ar gyfer yr ymgyrch (gweler Atodiad Ch) i'r ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld unrhyw rai ohonynt o'r blaen ai peidio. Fel y dengys Tabl 7.2, roedd cyfanswm o 12 y cant o'r ymatebwyr wedi gweld un neu fwy o'r hysbysebion poster.

**Tabl 7.2: Ydych chi wedi gweld unrhyw rai o hysbysebion poster ymgyrch Calon i Galon o'r blaen?**

| Ymateb | Canran yr ymatebwyr [a] |
|---|---:|
| Ydw | 12 |
| Nac ydw | 86 |
| *Ddim yn gwybod* | *1* |

Sail: 1,015 o ymatebwyr.
(a) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi gweld yr hysbysebion o'r blaen (127 o ymatebwyr) p'un a oeddent wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl gweld yr hysbysebion. O'u plith, dywedodd 14 o'r ymatebwyr eu bod wedi gwneud hynny,  dywedodd 74 o'r ymatebwyr nad oeddent wedi gwneud hynny;  a dywedodd 38 o'r ymatebwyr eu bod eisoes wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau gyda'u teulu.

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth oedd y prif negeseuon yr oedd yr hysbysebion yn ceisio eu cyfleu, yn eu barn hwy. Fel y dengys Tabl 7.3, yr atebion mwyaf cyffredin oedd mai neges yr hysbysebion oedd annog pobl i roi organau, neu'n fwy penodol, i'w hannog i drafod eu dymuniadau ynghylch rhoi organau.

**Tabl 7.3: Beth yw'r prif negeseuon y mae'r hysbysebion yn ceisio eu cyfleu, yn eich barn chi?**

| **Ymateb** | **Canran yr ymatebwyr** [a] |
|---|---|
| Annog pobl i roi organau / mae rhoi organau yn achub bywydau | 36 |
| Gadael i'ch teulu neu ffrindiau wybod eich dymuniadau o ran rhoi organau / trafod rhoi organau | 35 |
| *Ddim yn gwybod* | *21* |
| **Ymatebion eraill a nodwyd gan lai na 10 y cant o'r ymatebwyr** [b] | |
| Rhoi eich calon | |
| Cadw'n iach / bwyta'n iach / ymarfer corff | |
| *Arall* | |

Sail: 1,015 o ymatebwyr.
(a) Efallai bydd cyfanswm y tabl yn rhoi mwy na 100 y cant gan fod ymatebwyr yn cael rhoi mwy nag un ateb.
(b) Mae'r ymatebion 'Arall' yn nhrefn yr wyddor.

## 7.3 Datganiadau am hysbysebion Calon i Galon


Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol (dau gadarnhaol ac un negyddol) am hysbysebion yr ymgyrch Calon i Galon a ddangoswyd iddynt:

- Mae'r hysbysebion hyn yn hawdd i'w deall
- Mae'r hysbysebion hyn wedi gwneud i mi ystyried trafod fy nymuniadau mewn perthynas â rhoi organau gyda'm teulu
- **Nid** yw'r hysbysebion hyn wedi'u hanelu at bobl fel fi

Ar gyfer y datganiadau cadarnhaol, roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno bod yr hysbysebion yn 'hawdd i'w deall'; ac roedd traean yn cytuno bod yr hysbysebion wedi gwneud iddynt 'ystyried trafod eu dymuniadau mewn perthynas â rhoi organau gyda'u teulu' (Ffigur 7.1).

Ar gyfer y datganiadau negyddol, roedd tua hanner yr ymatebwyr yn anghytuno 'nad yw'r hysbysebion hyn wedi'u hanelu at bobl fel fi'.

**Ffigur 7.1: Datganiadau am hysbysebion ymgyrch Calon i Galon [a,b]**




Sail: 1,015 o ymatebwyr.
(a) Mae'r categori 'Cytuno' yn cynnwys 'Cytuno'n gryf' a 'Cytuno'. (b) Mae'r categori 'Anghytuno' yn cynnwys 'Anghytuno'n gryf' ac 'Anghytuno'. Mae'r categori 'Niwtral' yn cynnwys 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' a 'Ddim yn gwybod'.
(b) Efallai na fydd y cyfanswm yn rhoi 100 y cant yn union oherwydd talgrynnu.

## Atodiad A: Methodoleg

Cynlluniwyd sampl Arolwg Omnibws Cymru i gynrychioli'r boblogaeth breswyl 16 oed a throsodd yng Nghymru. Yr uned samplu yw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru gyda'r tebygolrwydd yn gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl haenu fesul awdurdod unedol a graddfa gymdeithasol.

O fewn pob pwynt samplu, defnyddir rheolaethau cwotâu demograffig mewn perthynas ag oedran a graddfa gymdeithasol o fewn rhyw at ddiben dewis ymatebwyr. Pennir cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd.

Pwysolwyd y data yn ôl grŵp oedran o fewn rhyw o fewn grwpiau awdurdodau unedol er mwyn rhoi'r nifer gywir i bob cell o fewn cyfanswm Cymru yn deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg ac ni chynhelir cyfweliad â mwy nag un person fesul cartref. Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadurol (CAPI).

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg rhwng 14 a 25 Mehefin 2013, gyda nifer fach o gyfweliadau yn cael eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,015 o gyfweliadau wyneb yn wyneb at ddibenion yr arolwg hwn.

### Samplu cwota cyfrannol

Pan fydd data arolwg yn cael ei brofi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid samplu ar hap), ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol go iawn, a bod yn fanwl gywir [6]. Felly, pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, cyfeirir at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar y lefel cyfwng 95 y cant. Mae hyn yn golygu, pe defnyddiai'r arolwg sampl ar hap, y byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20.

### Dadansoddiad chi-sgwâr

Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i benderfynu pa un a yw cydberthynas a arsylwyd rhwng dau newidyn categorïaidd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth breswyl sy'n oedolion 16 oed a throsodd yng Nghymru).

[6] Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

## Diffiniad o'r rhanbarthau

Dengys Tabl A.1 isod pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n rhan o'r rhanbarthau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

**Tabl A.1: Diffiniad o'r rhanbarthau**

| Rhanbarth | Awdurdodau unedol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Môn<br>Gwynedd<br>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Wrecsam |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion<br>Powys<br>Sir Benfro<br>Sir Gaerfyrddin |
| Bae Abertawe | Abertawe<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cymoedd | Rhondda Cynon Taf<br>Merthyr Tudful<br>Caerffili<br>Blaenau Gwent |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | Bro Morgannwg<br>Caerdydd<br>Casnewydd<br>Torfaen<br>Sir Fynwy |

## Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol

Dengys Tabl A.2 isod ddiffiniad o'r dosbarthiad o raddfeydd cymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

**Tabl A.2: Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol**

| Graddfa gymdeithasol | Diffiniad |
|---|---|
| **ABC1** | |
| A | Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel uchel |
| B | Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel ganolradd |
| C1 | Gweithwyr goruchwylio, clerigol a rheolwyr iau, gweithwyr gweinyddol neu broffesiynol |
| **C2DE** | |
| C2 | Gweithwyr llaw â sgiliau |
| D | Gweithwyr llaw â rhai sgiliau ac heb sgiliau |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr ar y raddfa isaf, pobl ddi-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |

## Meintiau'r is-sampl

Dengys Tabl A.3 isod nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi data mis Mehefin 2013. Nodir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli a'r samplau wedi'u pwysoli.

**Tabl A.3: Niferoedd is-sampl yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a graddfa gymdeithasol**

| Is-sampl | Sampl heb ei phwysoli | Sampl wedi'i phwysoli |
|---|---:|---:|
| **Rhanbarth** | | |
| Gogledd Cymru | 249 | 229 |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | 172 | 172 |
| Bae Abertawe | 158 | 173 |
| Y Cymoedd | 194 | 178 |
| Caerdydd a De Ddwyrain Cymru | 242 | 264 |
| **Oedran** | | |
| 16 – 34 oed | 303 | 297 |
| 35 – 54 oed | 304 | 331 |
| 55+ oed | 408 | 386 |
| **Rhyw** | | |
| Dynion | 474 | 493 |
| Merched | 541 | 522 |
| **Graddfa gymdeithasol** | | |
| ABC1 | 440 | 455 |
| C2DE | 574 | 559 |

# Annex B: Yr Holiadur (Saesneg yn unig)

**Organ Donation Omnibus Questions**
**June 2013**

And now changing the subject, I'd like to ask you a few questions about organ donation.

Q1. Can you tell me how you think the current system of organ donation works – that is, how do you think organs get donated?

PROBE FOR DETAIL: Anything else?

OPEN ENDED

**Could you read this card please**

SHOWCARD
Currently people in Wales can opt in to join the NHS Organ Donor Register if they wish to donate their organs after their death. It's normal practice for doctors to let relatives know if the person has opted in and doctors will encourage families to accept that, but will not proceed if families will not agree to the process. If you have not joined the Register, your family can consent to donate your organs after your death.

Q2. Are you aware of any proposed changes to the current organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q2a. How did you become aware of the proposed changes to the current organ donation system?

DO NOT PROMPT

On TV – news / programme
On TV - advertising

On the radio – news / programme
On the radio – advertising

In a local newspaper – news / article
In a local newspaper – advertising

In a national Wales newspaper – news / article
In a national Wales newspaper – advertising

In a national UK newspaper – news / article
In a national UK newspaper – advertising

Online / website – news item
Online / website – other

In a magazine

Poster
Leaflet
Someone told me

Other, please specify

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q3. Can you tell me how you think the system might change?

OPEN ENDED

**Please take a look at this card**

SHOWCARD
The National Assembly for Wales is considering changing the organ donation procedure to a 'soft opt out' system. This will mean people will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The law will allow family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue.

Q4. Before today, have you seen or heard anything about this proposal at all?

- Yes
- No
- Don't know

Q5. Which of these statements about proposed changes to the organ donation system in Wales best reflects your view?

REFER TO SHOWCARD IF NECESSARY: People will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue

- I am in favour of this change in legislation
- I am against this change in legislation
- I need more information to decide
- Don't know

ASK IF IN FAVOUR OF CHANGE AT Q5

Q6a. Can you tell me why you are in favour of the change in legislation?

OPEN ENDED

ASK IF AGAINST CHANGE AT Q5

Q6b. Can you tell me why you are against the change in legislation?

OPEN ENDED

ASK IF NEED MORE INFORMATION AT Q5

Q6c. Can you tell me what additional information you need?

OPEN ENDED

SHOWCARD
Q7. If the new system of opting out was introduced, which of the following best describes what you think you would do?

- I would register a wish **not** to be a donor (i.e. opt out)
- I would register a wish to be a donor (i.e. opt in)
- I've already registered a wish to be a donor (and would take no further action – i.e. remain opted in)
- I've not registered a wish to be a donor, but I **don't** think I'd opt out of being one
- Don't know

INTERVIEWER NOTE: If respondent without prompting mentions something other than the answers on the card or DK, please record here:

______________________________________________

Q8a/b/c/d. Can you tell me why that is [ANSWER AT Q7]?

OPEN ENDED

Q9a. I'm going to read out some statements that people have said about organ donation. I'd like you to tell me to what extent you agree or disagree with the statements:

- The proposed 'soft opt-out' system for Wales will result in more lives being saved
- Organ donation is a gift which the 'soft opt-out' system will take away
- The 'soft opt-out' system maintains freedom of choice because anyone can opt out from organ donation if they want to
- The 'soft opt-out' system gives the government too much control

**SHOWCARD**
Strongly agree
Agree
Neither agree nor disagree
Disagree
Strongly disagree

Q9b. I'm going to read out a few statements about the role of the family in organ donation under the new 'soft opt-out' system where the deceased has **not** opted out. Please tell me to what extent you think each statement is true.

- The family will have no role to play in the organ donation process
- The family will only be asked to confirm details about the deceased's residency and medical history
- The family can provide evidence that the deceased objected to donating their organs but did not get around to registering during their lifetime
- The family can override the wishes of the deceased
- If the family is in distress over the decision to donate, clinicians will not proceed with organ donation

**SHOWCARD**
Definitely true
Probably true
Probably not true
Definitely not true

Don't know

Q9c. Rather than make a decision during your lifetime about giving your consent to be an organ donor or not, you can instead nominate a representative to make a decision on your behalf. This is the case under the current 'opt in' system and will continue if the new 'opt out' system is introduced.

Is this something you would consider doing?

- Yes
- No
- Already have nominated a representative
- Don't know

Q10. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

Q11. In the event of your death do you think a family member would know your wishes in respect of organ donation?

- Yes
- No
- Don't know

Q12. And can you tell me if you are currently registered on the NHS Organ Donor Register?

- Yes
- No
- Don't know

**Heart to Heart Campaign questions [separate part of Omnibus questionnaire] June 2013**

ASK ALL

Q1. Have you seen or heard of campaign called Heart to Heart?

- Yes
- No
- Don't know

ASK THOSE AWARE OF HEART TO HEART AT Q1

Q2. What do you think the Heart to Heart campaign is about?

PROMPT: What are the main messages of the campaign?
PROMPT: Anything else?

RECORD VERBATIM

ASK THOSE AWARE OF HEART TO HEART AT Q1

Q3. Where or how did you find out about Heart to Heart?

DO NOT PROMPT

TV advert
TV programme
Sponsorship of TV programme

Radio advert
Radio programme

Poster - in street
Poster – on a bus / train
Poster – at a bus / train station
Poster – unspecific

Newspaper advert
Newspaper article

Magazine advert
Magazine article

Post card
Leaflet
On the internet

At an event / roadshow
Mobile Advertising Van

Someone told me about it

At work

Other (please specify)
DK

ASK ALL

SHOW POSTER ADVERT

Q4. I'd like you to look at these adverts. Can you tell me if you have seen any of these before or not?

- Yes
- No
- Don't know

ASK ALL

Q5. What do you think are the main messages that the adverts are trying to get across?

PROMPT: Anything else?
RECORD VERBATIM

ASK THOSE AWARE OF ADVERT AT Q4

Q6. Did you discuss your wishes about organ donation with your family after seeing this advert?

- Yes
- No
- Already discussed wishes about organ donation with family
- Don't know

ASK ALL

Q7. I'm now going to read out some statements that other people have said about the adverts I have shown you. I'd like you to tell me to what extent you agree or disagree with each one. There are no right or wrong answers – it's just your personal opinion we are interested in. So firstly …

ORDER OF STATEMENTS TO BE RANDOMISED BETWEEN RESPONDENTS

- These adverts are easy to understand

SHOW CARD
Strongly agree
Agree
Neither agree nor disagree
Disagree

Strongly disagree
Don't know

REPEAT FOR:

- These adverts have made me think of discussing my wishes about organ donation with my family
- These adverts are not aimed at people like me

## Atodiad C: Newidiadau i eiriad cwestiynau a'r opsiynau o ran atebion rhwng cam un a cham dau

| Mehefin 2012 | Mehefin 2013 |
|---|---|
| Cwestiwn: Cyn heddiw, oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn?<br><br>CERDYN DANGOS<br>Yng Nghymru, mae'r llywodraeth yn ystyried newid y weithdrefn rhoi organau i system 'feddal o optio allan'. Bydd hyn yn golygu y bydd pobl yn cael y cyfle i 'optio allan' yn ffurfiol o roi organau drwy roi eu henw ar gofrestr. Os byddant yn dewis peidio â gwneud hynny, ar ôl cael y cyfle, yna caiff hyn ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, ac yn benderfyniad yr anogir teuluoedd yn sensitif i'w dderbyn. Bydd y cyfle i 'optio i mewn' a chofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr yn parhau. | Cwestiwn: Cyn heddiw, oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn?<br><br>CERDYN DANGOS<br>Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried newid y weithdrefn rhoi organau i system 'feddal o optio allan'. Bydd hyn yn golygu y bydd pobl yn cael y cyfle i 'optio allan' yn ffurfiol o roi organau drwy roi eu henw ar gofrestr. Os byddant yn dewis peidio â gwneud hynny, ar ôl cael y cyfle, yna caiff hyn ei drin fel penderfyniad i fod yn rhoddwr, ac yn benderfyniad yr anogir teuluoedd yn sensitif i'w dderbyn. Bydd y gyfraith yn caniatáu i aelodau'r teulu wrthwynebu rhoi ar y sail eu bod yn gwybod na fyddai'r sawl sydd wedi marw wedi dymuno rhoi caniatâd. Bydd y cyfle i 'optio i mewn' a chofrestru penderfyniad i fod yn rhoddwr yn parhau. |
| **Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau?**<br><br>▪ Rwyf o blaid newid i system lle y mae pobl yn optio allan o roi organau yn hytrach nag optio i mewn<br>▪ Rwyf yn erbyn newid i system lle y mae pobl yn optio allan o roi organau yn hytrach nag optio i mewn<br>▪ Mae angen rhagor o wybodaeth arna i er mwyn penderfynu<br>▪ Ddim yn gwybod | **Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau?**<br><br>▪ Rwyf o blaid y newid hwn mewn deddfwriaeth<br>▪ Rwyf yn erbyn y newid hwn mewn deddfwriaeth<br>▪ Mae angen rhagor o wybodaeth arna i er mwyn penderfynu<br>▪ Ddim yn gwybod |
| **Os cyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei wneud?**<br><br>▪ Byddwn yn optio allan o'r gofrestr rhoddwyr organau<br>▪ Rwyf eisoes yn rhoddwr (ac ni fyddwn yn gwneud dim pellach - h.y. byddwn yn parhau'n rhoddwr)<br>▪ Nid wyf yn rhoddwr ar hyn o bryd, ond **nid** wyf yn meddwl y byddwn yn optio allan o fod yn rhoddwr | **Os cyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei wneud?**<br><br>▪ Byddwn yn cofrestru dymuniad i **beidio** â bod yn rhoddwr (h.y. yn optio allan)<br>▪ Byddwn yn cofrestru dymuniad i fod yn rhoddwr (h.y. optio i mewn)<br>▪ Rwyf eisoes wedi cofrestru dymuniad i fod yn rhoddwr (ac ni fyddwn yn gwneud dim pellach - h.y. byddwn yn parhau wedi optio i mewn) |

| | |
|---|---|
| ▪ Ddim yn gwybod | ▪ Nid wyf wedi cofrestru dymuniad i fod yn rhoddwr, ond **nid** wyf yn meddwl y byddwn yn optio allan o fod yn rhoddwr<br>▪ Ddim yn gwybod |

## Atodiad Ch: Hysbysebion ymgyrch Calon i Galon

